Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
—
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chyslltiadau Rhyngwladol

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru

06 Hydref 2025

Diweddariad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol

Annwyl Eluned

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf 2025, ac am rannu'r diweddariad chwarterol cyntaf ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol (IDP). Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i adolygu'r diweddariad ar gynnydd, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 17 Medi 2025.

## Strwythur yr adroddiad a hygyrchedd

Mae'r Aelodau'n cydnabod y pwysau sydd ar y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol, yn ogystal â'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Gyda hynny mewn golwg, mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod unrhyw adborth yn adeiladol ac yn gymesur. Wrth adolygu'r diweddariad o ran cynnydd, mae'r Aelodau wedi nodi nifer o awgrymiadau ymarferol a allai helpu i wella eglurder a hygyrchedd i randdeiliaid. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid strwythuro adroddiadau yn y dyfodol i alinio â'r camau gweithredu rhifedig a nodir yn y Cynllun, a fyddai'n cefnogi dull haws o groesgyfeirio ac olrhain cynnydd yn erbyn ymrwymiadau penodol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gwybodaeth am rai digwyddiadau yn cael ei hailadrodd mewn sawl man yn y ddogfen. Er y gall gweithgareddau gyflawni ar draws sawl gweithred, byddai croesgyfeirio yn gwneud yr adroddiad yn fwy cryno ac yn haws i'w ddarllen. Dylai astudiaethau achos nodi'n glir hefyd pa gamau gweithredu o fewn y gweithredu maen nhw'n eu cyflawni.

## Cynnwys a diweddariadau

Roedd y Pwyllgor yn siomedig na chafodd ddiweddariad ar yr Uwchgynhadledd Buddsoddi Ryngwladol, o ystyried ei statws fel un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni cyn

diwedd eleni. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi diweddariad penodol ar hyn yn yr adroddiad chwarterol nesaf, ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r cynnydd yn erbyn yr holl gamau gweithredu yn y Strategaeth Ryngwladol a'r cynlluniau cysylltiedig, fel yr ymrwymwyd iddo yn eich llythyr dyddiedig 9 Mehefin 2025.

## Monitro a gwerthuso

Yn ogystal â'r ystyriaethau hyn o ran fformatio, hoffai'r Pwyllgor dynnu sylw at ein pryderon ehangach, hirsefydlog ynghylch darparu tystiolaeth i ddangos "allbynnau, canlyniadau ac effeithiau". Mae'r materion hyn wedi bod yn thema gyson yng ngwaith y Pwyllgor ac yn cael eu harchwilio yn fanwl ar hyn o bryd drwy ein hymchwiliad i Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Bwriadwn fynd i'r afael â'r mater o fonitro a gwerthuso yn fanylach yn ein hadroddiad sydd ar y gweill, o'r ymchwiliad, a disgwylir y bydd yn cynnwys myfyrdodau ar sut y gellid cryfhau gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn i sicrhau rhagor o dryloywder ac atebolrwydd.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol, ac edrychwn ymlaen at ddeialog barhaus ar y materion pwysig hyn.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.